
# papur priordy



**ER MAINT SYDD YN DY GWMWL TEW**
**O LAW A RHEW A RHYNDOD**
**FE DDAW ETO HAUL AR FRYN**
**NID YDYW HYN OND CAWOD.**

*Dewiswyd gan Rebecca Hayes*
*Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*


**Rhifyn 352**
**PAPUR CHWEFROR 2022**

# Gair gan ein Gweinidog

## Amroth

***PENTREF*** glan y môr poblogaidd yn Sir Benfro yw **Amrot**h sy'n denu twristiaid yn ystod yr haf. Ac i'r ymwelydd, nid peth anarferol yw gweld Marc Drakeford yn ymdrochi yn y môr, ond pwysicach o lawer na gweld Prif Weindog Cymru yw gweld ein **Delme Thomas** ni yn rhodio'r tonnau hefyd!





Yr haf diwethaf, cefais fy llusgo i Amroth gan y merched i nofio wrth i'r haul fachlud ar noswethiau hir yr haf, ond gwell o lawer gen i fynd yno yn y gaeaf. Mae dau reswm dros hynny: yn gyntaf oherwydd ei bod yn rhy oer i fynd i'r môr (gwell gen i syllu arno na nofio ynddo!) ac yn ail oherwydd bod y lle yn dawel iawn heb fwrlwm y twristiaid.



Bûm yn cerdded yn Amroth un Sadwrn braf o Ionawr eleni, ac yn ymweld am y tro cyntaf ag **Eglwys Sant Elidyr** - eglwys â'i hanes diddorol yn ymestyn nôl i'r 12fed ganrif.

Mwy diddorol fyth oedd y pedwar maen coffa ar y wal y tu mewn i'r Eglwys. Roedd tri ohonynt wedi eu gosod yno gan wraig o'r enw Rebecca Poyer er cof am ei thri gŵr cyntaf! Gosodwyd y pedwerydd maen gan ei phedwerydd gŵr a oroesodd ei briod - er cof amdani!


Roedd tair cloch yn arfer bod yn nhŵr yr eglwys. Yn y flwyddyn 1929 tynnwyd y tair cloch o'r tŵr, eu toddi, a'u hailgastio yn un gloch fawr. Mae'n siŵr gen i bod un gloch fawr yn gwneud llawer mwy o sŵn wrth alw pobl i'r llan na thair cloch fach.



Mae'n siŵr o fod neges rywle yn y fan honno! Mewn undod mae nerth?

Y drindod sanctaidd ddaeth i'm meddwl i. Duw y Tad, Duw y Mab a Duw'r Ysbryd Glân ….

**Y tri yn un a'r un yn dri**
**Yw'r Arglwydd a addolwn ni.**



***AMROTH***. Mae llawer mwy i'r pentref na thonnau'r môr a hufen iâ!



**Gweddïwn**



**Dduw'r Tad, bendithia ni;**
**Dduw'r Mab, amddiffyn ni;**
**Dduw'r Ysbryd, cadw ni**
**Yn awr a hyd byth bythoedd**

**Amen**



**Capel Y Priordy**
**Te Prynhawn i Ddathlu**
**Gŵyl Dewi**
**Dydd Sul, 27 Chwefror**
**am 3.30 o'r gloch**
**yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg**
**Pris £8**
**Enwau ar y daflen yn y cyntedd neu i Beti Wyn cyn gynted â phosib**

# DARLLENIADAU

| MIS CHWEFROR | DARLLENIAD |
|---|---|
| Wythnos 1 | Marc 1: 29-39 |
| Wythnos 2 | Marc 9: 2-9 |
| Wythnos 3 | Marc 1: 9-15 |
| Wythnos 4 | Marc 8: 31-38 |

## APÊL MIS CHWEFROR

**Casglu Nwyddau Hylendid Personol**
***ar gyfer***

**Canolfan Galw i mewn Byddin yr Iachawdwriaeth**
**Heol Awst**

**Past dannedd - Brwsh dannedd - Gel Cawod - Siampŵ**
**Sebon - Sanau (dynion a menywod) – Diaroglyddion**
**Padiau misglwyf – Sebon siafio (ond dim raser siafio na dim byd miniog arall) - Brwsh gwallt – Crib gwallt**

**A wnewch chi hefyd sicrhau bod y nwyddau yn newydd os gwelwch y dda**

**Dyddiad cau – Dydd Sul 27 Chwefror 2022**

***Os na fedrwch ddod i'r capel a'ch bod yn awyddus i gyfrannu cysylltwch â Beti-Wyn ac fe drefnwn i gasglu'ch nwyddau)***

AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)*

## Llun Teulu Jones

## Elfyn a Llinos, Noa a Nel



**Mwynwen Jones….**




**Gwasanaeth 2 Ionawr 2022**

Braf oedd cael ymuno mewn gwasanaeth undebol yn y Priordy ar ddechrau blwyddyn newydd. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog Beti-Wyn. Hyfryd oedd gweld rhai o'r myfyrwyr sydd fel arfer ar wasgar nôl gyda'u teuluoedd. Meinir Lloyd oedd wrth yr organ a Huw Michael yng ngofal y cyhoeddiadau. Gwnaed y casgliad gan Caleb, Gwilym ac Elliw.

Mae'n arferiad yn y Priordy ar ddechrau'r flwyddyn i drosglwyddo'r gwasanaeth i ofal un o deuluoedd y capel. Llinos ac Elfyn a'u plant Noa a Nel gafodd y fraint eleni.

Cychwynnodd Nel drwy gyhoeddi'r emyn 145 - *Diolch, Diolch Iesu*. Wedyn, rhannodd Llinos atgof o Nadolig ei phlentyndod gan sôn yn benodol am **Domino Rali** – gêm o osod domino mewn un rhes ar ôl y llall. Cyfaddefodd bod y gêm yn gallu creu gwylltineb, ee. wrth i rywun trymdroed ddod i mewn i'r ystafell ac achosi i'r cyfan ddisgyn. Mae hynny'n atgoffa Llinos o gerdd Saesneg *'For the Want of a Nail'* a gafodd ei darllen yn bwyllog gan Noa. Cerdd oedd hon yn dangos sut oedd un peth bach negyddol yn gallu dwysáu a chael effaith fawr.



Emyn 780 – *Calon Lân* oedd gan Nel ar ein cyfer wedyn. Yna, tro Elfyn oedd sôn am anrheg iddo yntau ei dderbyn yn blentyn sef llyfr '*Pobl yr Injan-drên'* ac aeth ati i rannu'r stori. Gall injan drên dynnu rhes hir o gerbydau trên y tu ôl iddi. Gall pobl fod yn injan-drên hefyd dynnu rhes o bobl y tu ôl iddynt. Stori oedd hon yn cychwyn gyda phlentyn bach yn codi calon ei fam, a'r fam



yn mynd ymlaen i godi calon person arall, a'r person hwnnw'n mynd ymlaen i wneud gweithred dda. arall

Yna, cyflwynodd Nel yr emyn 373 – *Iesu Tirion.*

Esboniodd Llinos bod Iesu yn ein dysgu ni i fod fel injan drên a bod hyn yn amlwg yn ei ddysgeidiaeth trwy gydol y Beibl. Cyfeiriodd at boster a welir yn aml yn cyflwyno'r neges -

*"Câr dy Gymydog sydd ddim yn edrych fel ti, meddwl fel ti, caru fel ti, siarad fel ti, gweddïo fel ti, pleidleisio fel ti. Câr dy gymydog **DIM** eithriadau".*

Cawsom ein hatgoffa am ddameg y Samariad Trugarog. Y cymydog da oedd y dyn o Samaria. Neges Iesu oedd *"Cer a gwneud yn yr un modd."*

Yn y weddi, diolchodd Noa i Dduw am ein dysgu i fod yn garedig. Diolchodd ei bod hi'n bosibl dangos caredigrwydd hyd yn oed pan nad hynny yw'r peth amlwg i'w wneud. Gofynnodd i Dduw ein helpu i fod yn garedig tuag at eraill gan y gall y caredigrwydd hwnnw fod yn injan drên iddynt ar eu taith.



Soniodd Llinos am ddylanwad Iesu ar bobl fel yr Archesgob Desmond Tutu. Un digwyddiad bach ysgogodd ef i'r weinidogaeth oedd offeiriad gwyn yn camu oddi ar y pafin iddo ef a'i fam gael mynd heibio. Fel dywedodd ef "Gwna dy ychydig o ddaioni ble bynnag yr wyt, yr ychydig yna sydd yn gorlethu y byd."





Cyfeiriodd at neges gyfarwydd Dewi Sant a neges tebyg y Fam Teresa sef "*Gwnewch y pethau bach gyda chariad mawr".*

Geiriau Iesu oedd 'Rwyf yn dweud wrthych i garu eich gelynion, a

*gweddïo dros y rhai sydd yn eich erlid".*

Darllenodd Llinos eiriau a ddarganfuwyd ar ystafell wely'r Fam Teresa – geiriau oedd yn ei hysgogi i wneud daioni beth bynnag oedd pobl yn ei daflu ati. *"Yn y dadansoddiad terfynol, mae rhyngoch chi a Duw. Nid oedd erioed rhyngoch chi a nhw beth bynnag."*

Ategwyd neges y gwasanaeth gan Elfyn yn ymbilio arnom i fod yn 'Injan drên o garedigrwydd eleni - nid yn Domino Rali. Fodd bynnag, dangosodd Noa bod modd edrych ar hyn o safbwynt gwahanol a bod modd i ni fod yn Domino Rali o garedigrwydd gan basio'r caredigrwydd ymlaen. Nel wnaeth grynhoi gyda'r cyfarwyddyd syml ond effeithiol i fod yn *'neis i'ch gilydd eleni achos roedd Iesu yn neis i ni.'*

Diolchodd Beti-Wyn yn fawr i'r teulu am y gwaith graenus gan ategu neges Nel. Cyhoeddodd yr emyn 205 **–** *Dyma gariad fel y moroedd.*

Traddododd ein Gweinidog y Cymun ac estyn cydymdeimlad dwys gyda'r teuluoedd oedd mewn galar Yn ei gweddi, diolchodd am y teulu arbennig oedd yng ngofal y gwasanaeth a gofyn i Dduw ein cynorthwyo ni i fod yn injan drên wrth i ni lwybro i'r flwyddyn newydd. Cydganwyd emyn 345 – *O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu* i gloi'r oedfa.

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**IRENE WILLIAMS**

**EIRLYS DAVIES**

**CADWEN DAVIES**

**JOHN A CARYS GREEN**
**A**
**DIENW**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



# CANOLFAN HEOL AWST EGLWYS Y BEDYDDWYR SAESNEG CAERFYRDDIN



| | | |
|---|---|---|
| ***Phil Stephenson*** <br> ***Cadeirydd*** | ***Janet Mock*** <br> ***Ysgrifennydd*** | ***Dianne Stephenson*** <br> ***Trysorydd*** |

**Annwyl Ffrindiau**

Ar ran Canolfan Galw-i-Mewn Heol Awst hoffem ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniad caredig yn y Priordy at ein cludfwydydd rhad ac am ddim a baratowyd ar gyfer Dydd Nadfolig.

Mae'n diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch cyfraniad unwaith eto.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Yn gywir

**Phil Stephenson**
**Cadeirydd**

**Dianne Stephenson**
**Trysorydd**

***Llythyr a dderbyniodd Adrian Evans, ein Trysorydd, yn ddiweddar***



***Cyfanswm ein casgliad a'r rhoddion oedd £265.***
***Diolch eto i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.***



**Lleucu Edwards….**




## Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc
## 9 Ionawr 2022

Braf iawn oedd cael dod ynghyd ar gyfer Gwasanaeth plant a phobl ifanc cyntaf y flwyddyn. Er bod y cyfyngiadau 2 fetr wedi dod nôl i rym roedd croeso cynnes yn ein disgwyl a sain y band yn ein croesawu i'r Gwasanaeth fel arfer. Croesawyd pawb yn y Capel a'r rhai oedd yn ymuno gyda ni ar Zoom gan Beti-Wyn.

Mae'n braf gweld sut mae technoleg wedi esblygu a datblygu a bod modd i rai o'r aelodau sydd yn gaeth neu'n ynysu oherwydd Cofid ymuno drwy Zoom. Dyma ddarpariaeth ar ei gorau!

Cafwyd gweddi agoriadol gan Beti-Wyn ac yna'r emyn cyntaf, sef *"Dowch blant bychain*". Huw Michael oedd yng ngofal y cyhoeddiadau ac Elliw, Gwilym, Luned, Greta Fflur a Martha Nel fu'n cynorthwyo gyda'r casgliad ac roedd gwên fawr ar eu hwynebau wrth iddynt gwblhau'r gwaith.

Cyhoeddwyd yr emyn nesaf, "*O rwy'n caru'r Iesu"*, gan Osian oedd yn taflu ei lais yn arbennig er mwyn i bawb yn y Capel ei glywed ac ar ôl canu'r emyn daeth Cadi ac Ifan ymlaen i ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb a chyflwyno Côr rhithiol yr Ysgol Sul oedd wedi cael ei roi at ei gilydd gan Ieuan ac Angharad Wyn ar gyfer y Nadolig. Cawsom weld a chlywed y côr drwy gyfrwng y cyfrifiadur a phleser pur oedd cael clywed a gweld y plant yn canu ar y sgrîn. Roedd pawb wedi gwisgo dillad Nadoligaidd ac fe'n hatgoffwyd am hwyl a mwynhad y Nadolig, hyd yn oed yn y cyfnod heriol presennol, wrth wrando ar y côr. Arbennig iawn bob un ohonoch!




Aeth Cadi ac Ifan ymlaen i roi cyflwyniad am y flwyddyn newydd a gofyn i ni feddwl am sut rydym

ni'n edrych ar y flwyddyn newydd wrth i ni ganu'r emyn nesaf, "*Pwy wnaeth y sêr uwchben".* Roedd pawb wrth ei bodd yn canu'r emyn hwn gan ei fod yn rhoi cyfle i'r plant a phawb arall ymuno gyda'i gilydd i wneud yr holl symudiadau sydd yn mynd gyda'r emyn - er enghraifft symudiadau i adlewyrchu'r sêr uwchben, y pysgod chwim neu'r moroedd mawr. Roedd y plant yn amlwg yn fwy cyfarwydd â'r symudiadau na nifer ohonom ni'r oedolion, ond fe wnaethom i gyd ymdrech deg!

Daeth Nansi ac Anni i'r pulpud nesaf gan gynnig ymateb i'r cwestiwn a osodwyd gan Cadi ac Ifan - sut rydym yn edrych ar flwyddyn newydd? Cafwyd cyflwyniad ar y sgrîn gyda sain fywiog yn gefndir ac roedd y cyflwyniad yn rhestru gwahanol bethau sy'n cyfateb i'r ffyrdd mae rhai ohonon ni'n edrych ar y flwyddyn newydd;




tudalen wag, côt o eira heb ôl-traed, cacen heb ei thorri, blwch newydd o siocled heb ei fwyta, menyn newydd heb gyllell drwyddo a rhôl selsig heb ei chnoi. Wedi'r cyflwyniad aeth Nansi ymlaen i bwysleisio fod blwyddyn newydd yn gyfle newydd ac yn gyfle i dreialu pethau newydd, i weld pethau mewn goleuni gwahanol ac i brofi pethau newydd. Atgoffodd ni fod rhai pethau o'r hen flwyddyn na fyddwn eisiau eu gweld neu eu dweud eto ac eglurodd bod Iesu yn cynnig cyfle newydd i ni gyda phob blwyddyn newydd a bod Duw yn rhoi amser newydd i ni.

Aethom ymlaen fel cynulleidfa i gyd-ddarllen darn o Lyfr y Pregethwr oedd ar y sgrîn sydd yn nodi fod amser wedi ei bennu i bopeth a bod Duw'n gwneud i bopeth ddigwydd yn berffaith ar yr amser iawn.

Daeth Gwydion ymlaen nesaf i gyflwyno gweddi oedd yn diolch am y flwyddyn newydd ac yn gofyn i Dduw ein helpu i wneud ein gorau yn ystod y flwyddyn ymhob ffordd a hefyd yn gobeithio y byddai hon yn flwyddyn well i bawb.


Wedi i ni ganu'r emyn "*Y mae i'n Waredwr*" cydymdeimlodd Beti-Wyn gyda theuluoedd Mair Davies a Dai Lloyd, fu farw'n ddiweddar.

Yna cafwyd sgwrs gan Beti-Wyn i'r plant. Gofynnodd i'r plant beth

oeddynt am gael gwared ohono o'u bywydau yn y flwyddyn newydd. Ysgrifennodd ymatebion y plant ar bapur a rhoddodd y papur mewn dysgl o ddŵr - pan dynnodd y papur o'r dŵr roedd yn lân ac yn dangos fod modd cael gwared ar y pethau nad oeddem eisiau eu cadw yn ein bywydau. Yna gofynnodd i'r plant beth oeddynt eisiau eu cadw yn eu bywydau a'u datblygu a'u gwneud yn well.  Cafwyd nifer o ymatebion diddorol a pherthnasol oedd yn dangos plant y Priordy ar eu gorau ac yn adlewyrchu eu personoliaethau cynnes, chwareus a charedig.




I gloi fe gydganon ni'r emyn "*Un Cam bach",* emyn delfrydol i orffen y gwasanaeth hyfryd a phwrpasol ar ddechrau blwyddyn newydd.



Diolch yn fawr iawn i'r holl blant a phawb arall gymerodd ran ac i Beti-Wyn am lunio'r gwasanaeth. Roedd pob un plentyn wedi gwneud ei waith yn safonol ac arbennig iawn ac roeddwn yn clywed pob un yn glir yn y galeri. Da iawn bob un ohonoch!

**WÂC YN EIN WELIS**



**Dydd Sadwrn – 26 Chwefror 2022 am 1 o'r gloch**

**Meas Parcio Amgueddfa Caerfyrddin, Parc yr Esgob, Abergwili**

**Mawrth y Cyntaf 2022**

**Diwrnod o Eiriolaeth dros Gymru**

**Cwrdd Gweddi am 7 dros Zoom gyda'n Gweinidog**



## RHAI O DDATHLIADAU GŴYL DEWI

## TREF CAERFYRDDIN 2022

**Bore Sadwrn 5 Mawrth 2022 - 11 y bore**

**Parêd Gŵyl Dewi**

Mae'r Cynghorydd Gareth John, Maer y Dref yn gwahodd pawb i ymuno ag e yn yr orymdaith a fydd yn chwarae rhan flaenllaw yn nathliadau'r dref. Gwahoddir pawb i ymgynnull y tu allan i Eglwys San Pedr o 10.30 ymlaen ac i orymdeithio y tu ôl i Fand Chwyth Symffonig y dref trwy Heol y Brenin a Sgwâr Nott i'r Clos Mawr o flaen y Guildhall ac yna i wrando ar gyfarchion ac adloniant pellach. Anogir capeli ac eglwysi a chymdeithasau eraill i gyd-gerdded ac arddangos pwy maen nhw'n ei gynrychioli yn ogystal â chwifio baneri fel baner y Ddraig Goch, Dewi Sant neu Lywelyn. Bydd parcio am ddim ar ddydd y Parêd yn holl feysydd parcio'r Cyngor Sir yn y dref.

**Nos Fercher, 2 Mawrth 2022**

Cynhelir Talwrn y Beirdd blynyddol yn Yr Egin wrth Goleg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda digon o le i barcio am ddim eto. Bydd Tîm o Gwm Gwendraeth yn cystadlu eleni am y tro cyntaf ynghyd â thimau o Ysgol Farddol Caerfyrddin a Thîm Y Priordy sy'n cynnwys aelodau newydd.

**Bore Sul 27 Chwefror 2022**
**Gwasanaeth Gŵyl Dewi**

Bydd Caplan y Maer Y Parchedig Beti-Wyn James eleni eto yn cyflwyno Gwasanaeth Dros y We fel rhan o'r dathliadau.

**RHESTR LAWN O DDIGWYDDIADAU**

Fe gewch restr lawn o'r digwyddiadau eraill i ddathlu Gŵyl Ein Nawddsant ar Wefan Cyngor y Dref ac ar Facebook a'r papurau lleol. Croeso i bawb.

**Eurwen Jones**



## Y Tri Bedd yng Nghefncelfi


Yn ffinio â'n fferm fach ni ym mhentre Y Rhos roedd fferm o'r enw **Cefn Celfi**. Yno roedd merch fach 'ru'n oed â fi o'r enw Nesta yn byw. Yn y dosbarth yn yr ysgol un diwrnod buom yn casglu enwau ffermydd. Daeth yr enw 'Cefn Celfi' lan a dyma rhywun yn ei gyfieithu fel '*the back of the furniture*'. Sbri fawr, wrth gwrs. Flynyddoedd wedyn gwelwyd erthygl mewn cylchgrawn gan yr Athro Thomas Jones D.Lit, MA, Aberystwyth. Magwyd e ar fferm fach o'r enw '*Twmpath y Morgrug'* yn Nhan-y-graig, Yr Alltwen. Yn ôl yr Athro, hen ystyr celfi oedd nid dodrefn ond colofnau neu feini hirion a'r enw Cefn Celfi oedd cefn neu gefnen y colofnau.*'The Ridge of the Standing Stones'*





A beth am y meini neu'r colofnau yma a roes enw i'r tir ac yn ddiweddarach i'r fferm? Dwy garreg sydd ar gael nawr, un ar Gae'r Efail a'r llall ar y Waun Fach. Pan fyddai rhywun o'r pentre'n priodi bydda'r crots ifanc yn gwthio powdwr tanio i mewn i dyllau yn y meini a'u ffrwydro i ddathlu'r briodas ac fel arwydd o lawenydd. Roedd hyn tua dechrau'r ugeinfed ganrif. Digwyddodd rhywbeth tebyg pan briodwyd nhad a mam ganol y dauddegau. Cyn hynny roedd

nhad yn cofio’r meini (a dwy ohonynt oedd yno’r pryd hynny) cyn daled â dyn. Ond erbyn hyn maint dwy boblen yw’r ddwy.



Ond mae cam arall i’r stori. Yn Llyfr Du Caerfyrddin, a ysgrifennwyd tua 1250 ar femrwn, ceir casgliad o englynion a elwir yn Englynion y Beddau a dyma un ohonynt:

**Y tri bedd yng Nghefncelfi –**
**Awen ai dywed inni -**
**Bedd Cynon garw ei ddwyael**
**Bedd Cynfael, bedd Cynfeli.**


Pwy oedd Cynon, Cynfael a Cynfeli? Ai penaethiaid rhyw lwyth neu dywysogion y codwyd y cerrig beddau iddynt? Yn ôl yr Athro gallai’r englynion fod mor gynnar â’r ddegfed ganrif.

Fe ysgrifennwyd **Llyfr Du Caerfyrddin** yn y Priordy gan ryw fynach di-enw. A minnau’n troedio tir y Priordy ers dros hanner can mlynedd tybed ai brodor o Gilybebyll oedd y mynach di-enw a wyddai hanes y meini a’r beddau? Mae Eglwys y Plwyf yng Nghilybebyll yn mynd ’nôl i’r 12 ganrif, efallai ar safle eglwys gynharach.  Neu fynach o’r Priordy a gerddodd rhyw ddeugain milltir i efengylu i bobl wyllt Cilybebyll?! Sgwn i!

**Lluniau**
***Diolch yn fawr iawn i Gareth Richards am ei barodrwydd i’n helpu gyda’r lluniau. Maent fel a ganlyn: Cefn Celfi, Un o’r meini, Tudalen o Lyfr Du Caerfyrddin sy’n dangos yr englyn***

***COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS***






**Peter Hughes Griffiths…**



## Hunangofiant Goronwy Evans
## Procio'r Cof

Mae hwn yn hunangofiant gwahanol i'r arfer gan un a fu'n weinidog gyda'r Undodiaid yn Llanbedr Pont Steffan am hanner can mlynedd. Mae'n wahanol am ei fod yn rhoi pwyslais ar lawer iawn o bethau eraill ac yn rhoi darlun clir i ni o ardal y 'Smotyn Du' ers canol yr ugeinfed ganrif hyd at y presennol.




Mae'r gweinidog Goronwy Evans, heb os, yn berson unigryw, ac yn un sydd wedi cyfrannu mor helaeth yn grefyddol, yn ddiwylliannol a chymdeithasol i'r rhan hon o Geredigion, gyda Beti ei wraig yn llawn brwdfrydedd wrth ei ochr bob amser.

Mae e'n pwysleisio sut mae'r tri Llan wedi chwarae rhan bwysig yn ei fywyd. Magwyd ef yn Llanwenog a bu yn Ysgol Ramadeg Llandysul, ac yna'n gwasanaethu fel gweinidog yn Llanbedr Pont Steffan.

Mor braf yw cael dod i wybod am dalentau ardal ei fagwraeth, ac am rai unigolion disglair fel Edgar Evans a fu'n brif denor yn Covent Garden rhwng 1946 a 1975, ac am Evan James (Desin) Williams y Ffisegwr Byd-enwog a fu farw pan oedd ond yn 42 oed.

Yna, y dylanwadau a fu arno pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llandysul. Yn y cyfnod hwnnw mae'n rhestru'r bechgyn a aeth i'r weinidogaeth – Jim, John ac Aled Parc Nest, Lyn Rees, Iwan Davies, Edward Griffiths, Towyn Jones, Emyr Lyn Evans, Gareth Morgan Jones, Cen Llwyd, Emyr Wyn Thomas, Wyn Thomas ac Ainsleigh Davies, ynghyd â'r offeiriadon Brian (Penty) Thomas, Elwyn Evans a Brian Thomas, Llandysul.

Wrth sôn am ei weinidogaeth gyda'r Undodiaid mae'n cyfeirio at yr arweiniad a gafodd gan bobl fel y Parchedigion D Jacob Davies, J Marles Thomas, Aubery Martin a Vaughan Owen, ac mae ambell ddyfyniad ganddo sy'n rhoi cipolwg i ni ar bwrpas bod yn Undodwr: "*Cofiwch mai mudiad ydym ni ac nid Eglwys.*" *"Fe dreuliais hanner can mlynedd yn y weinidogaeth gydag ysbryd 'Tadau Crefydd Rydd' yn fy nghynhyrfu i wasanaethu a chario'r fflam a cherdded mlan."*

Mae'n amlwg fod gwasanaethu yn rhan amlwg o'i gred a'i fywyd ac yn yr ysbryd hwnnw bu'n ysgrifennydd eisteddfod enwog Rhys Thomas James yn Llanbedr Pont Steffan am 35 mlynedd. Bu Beti ac yntau yn gyfrifol am godi dros filiwn o bunnau i Blant Mewn Angen rhwng 1983 a'r flwyddyn 2012. Camp aruthrol.

Gwireddwyd breuddwyd Goronwy a Beti wrth iddyn nhw sefydlu Siop i'r Mudiad Undodaidd, ac sydd bellach yn Siop Lyfrau Cymraeg yn Llanbed. Fe'i hagorwyd gan Cynog Dafis ym 1997, ac fe alla i yn bersonol dystio i'r llwyddiant hwnnw wrth i mi dderbyn croeso arbennig i lofnodi fy hunangofiant innau '*O Lwyfan i Lwyfan'* yno yn 2010, gyda Goronwy wedi trefnu i dorf o bobl ddod ynghyd i'm cyfarfod. Mae e hyd yn oed wedi cynnwys llun ohona i yn llofnodi, yn ogystal â llun o dîm rygbi'r ysgol yr oedden ni'n dau yn rhan ohono yn ei lyfr. Mae'r gyfrol o werth hanesyddol hefyd gan ei bod yn rhoi darlun i ni o'r gymdeithas fyw a oedd ac sydd yn bodoli o hyd yn y darn hwn o Geredigion - ac fe gawn wybod hefyd pam y dywediad 'Y Smotyn Du'.



Mae Goronwy Evans yn storïwr dawnus, ac wrth gyfuno'r hanesion a disgrifio'r holl gymeriadau fe lwyddodd i brocio fy nghof innau hefyd. Mae'n gyfrol sy'n bleser ei darllen.

**'Procio'r Cof gan Goronwy Evans.**
**Y Lolfa - Pris £9.99**

♫ I ♫

**Pa mor dda ydych chi'n adnabod eich emynau? Mae'n Fis Chwefror ac mae pob gair sy'n eisiau yn yr her isod yn dechrau gydag CH neu'n cynnwys CH. Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | I'r Arglwydd ----- lafar glod | |
| | | |
| 2 | ---- Arglwydd nef y nefoedd | |
| | | |
| 3 | O am ------ blwyddyn newydd | |
| | | |
| 4 | Am -------- daear lawr | |
| | | |
| 5 | Caed baban --- mewn preseb drosom ni | |
| | | |
| 6 | Fe ------ yr awel ar Gymru drachefn | |
| | | |
| 7 | O ---- dy fwrdd, O Arglwydd | |
| | | |
| 8 | Fy ------ yn y byd | |
| | | |
| 9 | ----- amdanat, addfwyn Arglwydd | |
| | | |
| 10 | -------- Arglwydd,ddim ond hynny | |
| | | |

**Atebion ar Dudalen 28**

# MWYNHAU YN YR YSGOL SUL

## *WYNEB YN WYNEB*







Ysgolion Sul Y Priordy, Cana a Bancyfelin a PIP

# Wâc yn ein Welîs

(a mwy!)

## Dydd Sadwrn, 26 Chwefror

Cwrdd ym Maes Parcio yr Amgueddfa, Abergwili

am 1 o'r gloch.

Dewch yn llu a dewch a'ch welîs!





**Calendr yr Ysgol Sul**

(rydym yn addasu yn ôl yr angen!)

Chwefror 6 -Ysgol Sul

Chwefror 16 – Ysgol Sul

Chwefror 20 – Dim Ysgol Sul

Chwefror 27 – Oedfa Gŵyl Dewi

Mawrth 6 – Ysgol Sul



Hwyl am y tro

Beti – Wyn

# Ifanc@Priordy

Helo bawb, gobeithio eich bod yn cadw'n iach. Rwy'n clywed bod yr hen Covid wedi taro nifer o deuluoedd y Priordy. Mae'n grêt ein bod yn gallu cynnal yr Ysgol Sul dros Zoom! Diolch i bawb a ymunodd.

## Cawod!



Ydych chi'n cael bath neu gawod bob dydd? Mae'n siŵr gen i eich bod! Nid pawb yng Nghaerfyrddin sy'n gallu cael cawod bob dydd felly mae canolfan Byddin yr Iachawdwriaeth yn Heol Awst ar agor bob bore a phobl yn cwrdd i gefnogi ei gilydd ac i gael cawod fel bo angen! Felly, rydym yn casglu stwff ymolchi yn Y Priordy y mis hwn ar gyfer y ganolfan. Mae rhestr ar gael mewn man arall yn y papur.

## Gwasanaeth Gŵyl Dewi

Oedfa Deulu Dydd Sul, Chwefror 28 yn Y Priordy. Dewch wedi gwisgo yn eich gwisg Gymreig neu'ch crysau Cymru!



## MWYNHAU YN YR YSGOL SUL

## AR ZOOM







**TASG YR YSGOL SUL RITHIOL**

**PYSGOTA!**




**Rhian Evans**
*yn cofio*



## Syr Geraint Llewellyn Evans

***PETAI'R*** bâs-bariton, Syr Geraint Evans yn dal yn fyw, byddem yn dathlu'i ben-blwydd yn gant oed ar 16 Chwefror eleni. Yn anaml iawn, dybiwn i, y bydd dau ganwr opera byd-enwog yn cael eu geni yn yr un stryd o fewn ychydig flynyddoedd i'w gilydd. Ond fe ddigwyddodd hynny yn y ganrif ddiwethaf yn Stryd Williams, Cilfynydd, Rhondda Cynon Taf, pan aned Geraint Llewellyn Evans ac yna'r tenor, Stuart Burrows un mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach. Bu'r ddau ohonynt yn llysgenhadon gwych dros Gymru ac yn ysbrydoliaeth i laweroedd o gantorion ifainc.



Unig blentyn William, a oedd yn löwr, a Charlotte May Evans oedd Geraint a Chymraeg oedd iaith yr aelwyd. Ergyd enbyd i'r teulu oedd colli mam Geraint ac yntau ond yn flwydd oed. Byddai llawer o fechgyn y Rhondda yn dilyn eu tadau i'r lofa, ond dewisodd ef i adael yr ysgol yn 14 oed a mynd i weithio mewn siop ffasiynol iawn yn gwerthu dillad menywod ym Mhontypridd. Ei waith yno oedd 'gwisgo'r ffenestri'.




Roedd yn amlwg yn fuan iawn fod ganddo lais canu da a dechreuodd gael gwersi canu yng Nghaerdydd gan Idloes Owen, sef yr un a aeth ymlaen i sefydlu Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Canai hefyd yng nghôr y Methodistiaid lleol a'r gymdeithas ddrama amatur leol.

Pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd, gwirfoloddodd gyda'r RAF lle'r hyfforddwyd ef fel peiriannydd radio. Cafodd gyfle hefyd i berfformio mewn cyngherddau adloniadol ar gyfer y lluoedd arfog. Yn dilyn y rhyfel, gweithiodd gyda rhwydwaith radio'r Lluoedd Prydeinig yn Hamburg lle canai gyda chorws y radio. Derbyniodd wersi canu yno gan y bariton, Theo Herrmann, yna yng Ngenefa ac er mwyn perffeithio'i grefft, wedi dychwelyd i Lundain, derbyniodd wersi yn Ysgol Gerdd y Guildhall.

Yn fuan iawn daeth ei allu fel actor ac fel canwr grymus i sylw cyfarwyddwyr opera ac ni fu'n hir cyn iddo gael cynnig rhannau ar y prif lwyfannau operatig. Rhwng ei ymddangosiad cyntaf yn Covent Garden ym mis Ionawr 1948 a'i berfformiad ffarwel yno ym mis Mehefin 1984, roedd Syr Geraint wedi portreadu dros 70 cymeriad o brif operau'r byd.




Roedd yn arbennig o hoff o waith Mozart a chanodd ran Figaro ym 'Mhriodas Figaro' dros 500 o droeon. Dyna'r rhan a ganodd ar ei ymddangosiad cyntaf yn La Scala, Milan yn 1960. Syr Geraint oedd y canwr Prydeinig cyntaf i ganu yno oddi ar ddiwedd y rhyfel. Pan ganodd yn Nhŷ Opera Fienna o dan arweiniad Herbert von Karajan, cynigiodd hwnnw iddo gytundeb parhaol i weithio yn Fienna. Ond gwrthod wnaeth Syr Geraint gan gredu mai Covent Garden oedd ei gartref operatig. Roedd yn adnabyddus yn rhyngwladol am ei rôl fel Falstaff yn opera Verdi a ganodd am y tro cyntaf yn 1957 yng Ngŵyl Opera Glyndebourne. Fe'i gwahoddwyd i ganu rhan Falstaff mewn tai opera ledled y byd gan gynnwys y Metropolitan yn Efrog Newydd dan gyfarwyddyd Franco Zeffirelli. Yn ogystal â'r prif operâu clasurol, cymerodd Syr Geraint ran hefyd mewn operâu diweddar, megis, 'Pilgrim's Progress' gan Vaughan Williams, (1951), 'Billy Budd' gan Benjamin Britten (1951),

‘Troilus a Cressida’ gan Walton, (1954), a ’The Beach at Falesa’ gan Hoddinott (1974).


Roedd gan Syr Geraint y gallu i chwarae rhannau doniol yn ogystal â rhai dwys. Byddai’n well ganddo bob amser ddewis rhannau lle byddai cwmpawd ei lais yn gyfforddus. Gwrthodai unrhyw ran a fyddai’n galw arno i ganu nodau rhy uchel iddo. Er mai bâs-bariton oedd yn ystod y rhan helaethaf o’i yrfa, derbyniodd ran y bâs yn ddiweddarach yn ei oes, hyd yn oed os nad oedd y rhannau hynny’n brif gymeriadau yn yr operâu. Rhwng 1968 a 1981, rhoddodd Syr Geraint amryw o wersi meistr ar y teledu lle bu’n rhoi arweiniad gwerthfawr i gantorion ifainc.

Wedi iddo ymddeol o’r llwyfan operatig yn 1984, parhaodd i weithio fel cyfarwyddwr llwyfan a gwahoddwyd ef yn aml i weithio ar amryw o operâu yn yr Unol Daleithiau. Erbyn hyn câi fwy o amser i hamddena a dod i aros yn ei gartref yn Aberaeron er mwyn cael hwylio ym Mae Ceredigion. Daeth nifer o anrhydeddau i’w ran yn sgil ei yrfa ddisglair. Fe’i urddwyd yn farchog yn 1969 a gwnaed ef yn Gymrawd o Ysgol Gerdd y Guildhall. Yn ogystal â’r anrhydeddau a estynnwyd iddo gan golegau a sefydliadau yn Lloegr, rhoddodd Prifysgol Cymru Ddoethuriaeth mewn Cerddoriaeth iddo. Gwnaed ef hefyd yn Gymrawd yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd ac yn 1984 derbyniodd Fedal Cymdeithas y Cymrodorion. Yn y flwyddyn honno y cyhoeddodd ei hunangofiant, **‘A Knight at the Opera’.**




Ddeufis cyn ei farwolaeth, yn Ysbyty Bronglais ym mis Gorffennaf 1992, ymddangosodd Syr Geraint am y tro olaf mewn noson ‘gala’ i ddathlu cau’r hen dŷ opera yn Glyndebourne. Cymerodd Janet Baker ran yn yr un cyngerdd. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo yn Eglwys Gadeiriol Westminster lle daeth 1,700 o bobl i dalu’r deyrnged olaf. Arweiniwyd cerddorfa a chorws y Tŷ Opera Brenhinol gan Bernard Haitink, Syr George Solti, Syr Colin Davis a Sir Edward Downes. Canwyd emynau Cymraeg a darllenwyd gan Donald Sinden a Stuart Burrows. Roedd aelodau o Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru a Chlwb Rygbi Llundain hefyd yn bresennol.

***UNWAITH*** yn unig y bûm i'n ddigon ffodus i glywed Syr Geraint Evans yn canu ar lwyfan a hynny yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1978. Roedd ef yn un o'r artistiaid a ganodd yn un o gyngherddau'r wythnos honno. Ond yn ogystal â hynny, ef oedd i fod i ganu cân y cadeirio yn y seremoni. Pan gyhoeddwyd gan y beirniaid nad oedd neb yn deilwng o'r gadair, aeth ton o siom drwy'r dorf, ond fel gwobr gysur, gwahoddwyd Syr Geraint i ganu ac os cofiaf yn iawn, yn dilyn cân y cadeirio rhoddodd berfformiad bythgofiadwy o'r 'Marchog' - pinacl y diwrnod i lawer iawn ohonom.




**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 9 Mawrth 2022 am 7**
**yn y capel**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

**CWRDD DIACONIAID A BAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR YR OFALAETH**

**Nos Fercher 23 Mawrth 2022 am 7 yng Nghana**




**Geiriadur Daeareg a Gwyddorau Daear**

**Dyfed Elis-Gruiffydd**
**Y Lolfa - £9.99**
**Rhagfyr 2021**

***Y geiriadur daearegol cyntaf i'w gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg.***

**Tudalen Blaen**



**Rheswm Rebecca Hayes dros ddewis……**

"***Er maint sydd yn dy gwmwl tew o law a rhew a rhyndod; Fe ddaw eto haul ar fryn – nid ydyw hyn ond cawod***."

***DW I*** ddim yn orhoff o glywed cliché. Dwi'n gwybod bod cliché yn byw achos bod gwirionedd yn ei gnewllyn, ond mae hi'n dal yn gàs gen i glywed pobol yn ailadrodd geiriau o ran ffasiwn; efallai am nad y'n nhw wedi oedi i feddwl am ffordd ffres o gyfathrebu'r hyn sy' ganddyn nhw i'w ddweud.

Ond eto, dyma fi'n nodi dyfyniad sy' wedi cael ei rannu bron i syrffed yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, fel fy hoff ddyfyniad i.

Y gwir yw bod y dyfyniad hwn wedi bod ar wal ein cegin ni ers 11 mlynedd.




Tad-cu a'i boblogeiddiodd ar lafar ein teulu ni. A diolch iddo am hynny, oherwydd dyma eiriau sy wedi'm cofleidio mewn cysur ar sawl achlysur. Dyw bywyd ddim yn llinellol. Mae pob yr un ohonom ni'n profi isafbwyntiau ac uchafbwyntiau a'r rheini'n gallu bod yn greulon ac yn wych. Ac wrth i fi, fel chi, brofi amrywiol flasau bywyd, dw i wedi dod i ddeall a gwerthfawrogi'r cwpled y rhannodd dad-cu gyda fi yn fwyfwy.

Mae'n anodd meddwl am y wawr yn torri pan y'ch chi yng nghanol cwmwl tew o law weithiau - heb

sôn am ddychmygu gweld y belen felen yn dringo i **ben** y bryn! Ac efallai, wedi ambell brofiad, nad yw'r haul yn gallu tywynnu'r yr un modd ag y gwnaeth gynt.

Ond fel y canodd Edward H.Dafis, *"Mae'r byd eto'n troi a throi"* ac mae cyfle i ni fod yn rhan ohono.



**A gyda llaw, gan nad ydwi'n hoffi ailadrodd geiriau heb eu llawn ddeall, oes rhywun sy'n gallu rhannu tarddiad neu enw awdur fy hoff ddyfyniad gyda fi plîs?**

**ATEBION HER YR EMYNAU**

**Mae'r rhifau yn cyfeirio at Ganeuon Ffydd**

**1. Cenwch (75) 2. Molwch (82) 3. Ddechrau (90)**
**4. Brydferthwch (104) 5. Bach (365) 6. Chwythodd *627)**
**7 Gylch (653) 8 Ngorchwyl (673) 9 Chwilio (701) 10 Cheisiais (707)**

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**

**Cyswllt**

**PHILIP JONES**

**Trysorydd**

**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**




**THEATR GENEDAETHOL CYMRU**
***yn dod cyn hir***
**PETULA**
**Sioe dywyll, chwareus a chraff yw *Petula* am dyfu i fyny, teulu a chariad.**




**Theatr byw**
**Ffwrnes, Llanelli - 29-30 Mawrth 2022 - 7.00pm**
**☎0345 2263510**


## LLONGYFARCHIADAU I GWENAN



**Llongyfarchiadau i Gwenan Fflur, un o ddisgyblion ein Hysgol Sul, am ennill cystadleuaeth y cylchgrawn Cristion (Rhifyn 229), sef creu cerdyn Nadolig Cristnogol. Ardderchog. Mae cerdyn Gwenan i'w weld yn rhifyn cyfredol Cristion (Ionawr / Chwefror 2022).**

**Cylchgrawn Cristnogol a gyhoeddir pob deufis yw Cristion gan bwyllgor eciwmenaidd sy'n cynnwys yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, yr Eglwys Bresbyteraidd, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig**


# GWAITH ALBANWR YN SBARDUN I GYMRO



Mae lle pwysig i'r Albanwr **John Brown** (1722-87) a aned 400 mlynedd yn ôl i eleni yn hanes twf Geiriaduron Beiblaidd Cymru.

Yn frodor o Carpo ger Abernethy, cafodd ei adael yn amddifad yn un ar ddeg oed. Addysgodd ei hunan wrth weithio fel bugail. Nid yn unig y dysgodd sut i ddarllen ac ysgrifennu ond aeth ymlaen i godi Groeg, Lladin a Hebraeg. Gweithiodd fel ysgolfeistr a bu'n filwr yng nghatrawd Fyffe ar ochr y llywodraeth yng Ngwrthryfel y Jacobiaid ym 1745 cyn troi'n bregethwr. Fe oedd y myfyriwr diwinyddol cyntaf yng Nghangen Burgher o Eglwys Rydd yr Alban. Cafodd ei ordeinio a bu'n weinidog yn Haddington, tref yn East Lothian yn Yr Alban ble roedd yn byw tan ei farw. Ar ben ei waith fel gweinidog bu'n hyfforddi ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth. Datblygodd llawer o'r ymgeiswyr hyn yn weinidogion grymus. Daeth yn berson enwog a dylanwadol yn hanes Haddington. Bu'n briod ddwywaith. Bu farw 19 Mehefin 1787


Yn awdur toreithiog yn ogystal â phregethwr ysbrydoledig,




ysgrifennodd sawl llyfr ar grefydd. Dylanwadodd ar Albanwyr adnabyddus, fel y beirdd Robert Burns a Robert Fergusson a'r athronydd David Hume. Byddai Hume yn dweud fod Brown yn pregethu fel pe bai Crist wrth ei benelin!


Mae'n adnabyddus yn bennaf am ddwy gyfrol – **A Dictionary of the Holy Bible (1769)** – un o'r cynharaf o'i fath, mae'n debyg – ac yn arbennig The Self-interpreting Bible (1778).

A dyma ni'n dod at y cyswllt rhwng Browni a Chymru. Un o gymeriadau hynotaf ei gyfnod os nad yr hynotaf oedd **James Rhys Jones (1813-1889**. Fe'i disgrifir fel dyn od, yng ngolwg ei feirniaid ond hynod yng



ngolwg ei edmygwyr. Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr mewn sawl man yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys Kilsby yn Swydd Northampton a chafodd ei adnabod fel Kilsby Jones o hynny ymlaen. Yn bregethwr poblogaidd, roedd hefyd yn ddarlithydd ffraeth. Ei daliadau am ei ddarlithoedd fu'n bennaf gyfrifol am dalu'r £1,400 a gostiodd i adeiladu ei dŷ yn Llanwrtyd! Ysgrifennai ar gyfer cylchgronau Cymraeg a golygodd holl waith prydyddol a rhyddiaith William Williams (Pantycelyn). Bu am lawer o flynyddoedd yn olygydd Cymraeg i gwmni cyhoeddi William Mackenzie, Glasgow a chyfieithodd Eiriadur Beiblaidd John Brown o'r Saesneg i'r Gymraeg

Llyfr cyfeirio yw Geiriadur Beiblaidd sy'n cynnwys eitemau gwyddoniadurol mewn perthynas â'r Beibl, yn ymwneud yn arferol â phobl, lleoedd, arferion a beirniadaeth Feiblaidd. Gall Geiriadur Beiblaidd fod yn ysgolheigaidd neu'n boblogaidd ei naws.




Roedd John Brown yn un o awduron diwinyddol pwysig yr Alban yn y 18g a chafodd ei weithau ar ffydd, addoli, athtrawiaeth ac ysbrydolrwydd ddylanwad parhaol ar yr Eglwys. Cyhoeddodd ei Eiriadur Beiblaidd am y tro cyntaf ym 1769 a chafwyd dau argraffiad pellach yn ystod ei fywyd. Arhosodd mewn print tan 1869. Ers hynny mae Geoffrey Stonier wedi cynhyrchu cyfrol newydd, **Brown's Dictionary of Bible Characters**, yn cynnwys holl gyfeiriadau Brown at unigolion sydd yn y Geiriadur gwreiddiol. Fe'i cyhoeddwyd ym Mai 2008.

**COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

**CYRSIAU'R GWANWYN**

**Darllen, deall a dehongli Gair Duw heddiw**
**Astudio'r Beibl yn ein cyd-destun ni**

**Nos Lun, 7 Mawrth 2022**
**Testament Newydd y Beibl**
**Catrin Haf Williams**
***Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol***
***Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant***

**Dirnad a datblygu doniau yn ein heglwysi**

**Nos Lun, 14 Mawrth 2022 - 7**
**Beti-Wyn James**
***Caerfyrddin***

**Nos Fawrth, 22 Mawrth 2022 – 7**
**Alun Tudur**
***Caerdydd***

**Cwrs Dehongli'r Ysgrythurau**
**Yr Actau a'r Epistolau**
**Nosweithiau Mercher**
**gan ddechrau 16 Chwefror 2022 - 7**

**Aled Jones**
***Cyfarwyddwr a Chydlynydd Hyfforddi'r Coleg***

***Croeso cynnes iawn i bawb***
***Bydd pob cwrs ar-lein eleni***


***Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth***
***aled@colegyrannibynwyr.cymru***

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

## NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### CYFARFOD DECHRAU'R FLWYDDYN

**Yn flynyddol dan adain Cyngor Eglwysi'r dref cynhelir Oedfa Weddi a Myfyrdod ar y nos Fercher gyntaf yn y mis. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal yr oedfa mewn capel ond oherwydd y Pandemig penderfynwyd mai doethach fyddai cynnal yr oedfa ar Zoom eleni eto. Yn absenoldeb cadeirydd y Cyngor arweiniwyd yr oedfa gan Mererid Mair.**




### OEDFA AM UNDEB CRISTNOGOL

**Nid oedd yn ymarferol i'r eglwysi gynnal yr oedfa gyda'n gilydd eleni. Er hyn, dyna oedd thema'r oedfa yn Salem ar y trydydd Sul yn Ionawr. Arweiniwyd yr addoliad gan Mererid Mair a defnyddiwyd y deunydd a baratowyd gogyfer â'r Sul .**

### YR YSGOL SUL

**Rydym yn dal i gynnal yr Ysgol Sul ar Zoom gan nad ydym yn hyderus i'w chynnal yn y festri. Ers dechrau'r flwyddyn rydym yn gwneud ymdrech i gryfhau'r ddolen rhwng yr oedfa yn y capel a'r Ysgol Sul. Newidiwyd amser yr Ysgol Sul i gyfarfod yn gynharach er mwyn i un o blant yr Ysgol Sul gymryd rhan ar ddiwedd yr oedfa. Profiad newydd i'r rhai sy'n addoli yn y capel yw gweld plentyn yn cymryd rhan yn yr oedfa o'i gartref. Parhawn i ryfeddu!**

***Er bod diwedd Ionawr wedi cyrraedd eisoes – cyfarchion blwyddyn Newydd i'n cyfeillion yng Nghaerfyrddin.***

## Y DIWEDDAR DAVID BASTON



Gyda syndod mawr y clywsom am farwolaeth sydyn David Baston ar yr aelwyd yn Hafod Cwnin. Rhannodd yr aelwyd gyda'i fam, y ddiweddar Mair Baston a gollwyd o'n plith flwyddyn union i golli David. Roedd y ddau ohonynt yn dod fel un pecyn, gan iddi hithau gael ei gadael yn wraig weddw yn ifanc iawn, a David ond yn 8 mlwydd oed. Bu'r berthynas rhyngddynt yn un agos iawn.

Roedd gan David ddiddordeb mawr ym myd natur, a byddai wrth ei fodd allan yn yr awyr iach. Byddai'n casglu celyn a gwyrddni o'r perthi ar gais ei fam ar gyfer blodau i'r capel, ac yn enwedig i'w chynorthwyo wrth baratoi torch yr adfent bob Nadolig. Bu'n cynorthwyo Mair hefyd yn yr ardd ac enillodd eu gardd wobr Cyngor Tref Caerfyrddin am yr ardd gymysg orau ar sawl achlysur. Roedd David yn bysgotwr brwd, diddordeb a etifeddodd gan ei ddiweddar dad, a gwnaeth lawer o ffrindiau ym myd y pysgota.

Dilynodd ei dad i weithio yn y Swyddfa Bost, a chyflawnodd dros 40 mlynedd o wasanaeth yno. Bu'n bostman yn ardal Bancyfelin am gyfnod hir, a'i gwsmeriaid yn ei ganmol am ei gymwynasgarwch. Roedd gan David galon fawr, ond teg yw dweud bod rhaid edrych yn galed amdani ar adegau!

Bu'n aelod mawr ei barch o'r gymdogaeth glòs yn Hafod Cwnin, a gwelir ei eisiau yn fawr gan y cymdogion yn ogystal â'i gydweithwyr. Roedd yn aelod pwysig o'i deulu hefyd, a buont yn ofalus iawn ohono erioed, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Edryd ei ewythyr, Barbara a Delyth ei ddwy fodryb, ynghyd â'i gefndryd a'i gyfnitheroedd i gyd.

Cynhaliwyd ei angladd fore Gwener, 31 Rhagfyr yn Amlosgfa Arberth. Gwasanaethwyd gan ei weinidog. Rhoddir ei weddillion i orffwys ym medd ei rieni ym mynwent y dref. Coffa da amdano a heddwch i'w lwch.

**Ein Gweinidog**

## Y DDIWEDDAR MAIR DAVIES

Bu farw Mair Davies yn dawel yng Nghartref gofal Brynderwen ar 23 Rhagfyr 2021.



Ni fu'n mwynhau'r iechyd gorau ers sawl blwyddyn, ond gyda chymorth gofalwyr ffyddlon a chefnogaeth ei chefnder, Alun, llwyddodd i fyw yn ei chartref yn Heol y Ffwrnes tan ddechrau Rhagfyr 2021.

Fe'i magwyd ar fferm Bwlchtrap, Llanpumsaint ac wedi cwblhau ei haddysg ac addysg bellach yng ngholeg hyfforddi'r Barri bu'n dysgu am ugain mlynedd yn Ysgol Alltwallis cyn ymgymryd â'r gwaith pwysig o fod yn athrawes yn Ysbyty Glangwili. Roedd yn uchel ei pharch yno ar y wardiau, a nifer fawr o blant a phobl ifanc wedi bod o dan ei gofal yn ystod cyfnodau digon gofidus yn eu bywydau.

Bu Mair yn rhan o'r gymdogaeth agos yn Heol Y Delyn am flynyddoedd ac yna yn Heol Ffwrnes a phawb â meddwl mawr ohoni.

Cofiwn am Mair yn Y Priordy fel presenoldeb tawel, ffyddlon a hynod gymwynasgar. Roedd cymdeithas eglwys yn bwysig iddi, a hynny ar hyd ei hoes gan iddi gael ei magu yn rhan o gymdeithas glòs Nebo, Llanpumsaint.

Cynhaliwyd ei hangladd bnawn Iau 13 Ionawr yn Amlosgfa Parc Gwyn. Oedfa syml a di-ffws, fel Mair ei hun. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog. Rhoddir ei llwch i orffwys ym medd ei rhieni ym mynwent Nebo maes o law.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Emyr a'i briod Kay a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

**Ein Gweinidog**

## Y DIWEDDAR DAVID (DAI) LLOYD



Gyda syndod a siom y clywsom am farwolaeth sydyn Dai Lloyd a'n gadwodd yn ddisymwth yn ei gartref, Dolgwili ar 5 Ionawr 2022. O golli Dai, rydym wedi colli un o gymeriadau adnabyddus a phoblogaidd yr ardal hon a'r ardal ehangach.

Wedi ei eni a'i fagu yn Nolgwili, bu'n gweithio yn y mart yng Nghaerfyrddin a Hendy-gwyn yn ogystal â gweithio gartre yn godro, prynu lloi, a thrin yr ardd. Roedd Dai bob amser yn awyddus i wasanaethu a gwnaeth hynny yn ei ffordd ddihafal ei hun mewn sawl cylch a chymdeithas. Bu'n weithgar iawn gyda Chlwb Ffemwyr Ifanc San Pedr ac yn arweinydd am flynyddoedd lawer; yn ffyddlon i Aelwyd yr Urdd ac yn galw twmpathau, ac yn ddiweddarach yn aelod gwerthfawr o bwyllgor Maes y Sioe.

Gŵr cadarn a chryf o ran corfforaeth ond â chalon dyner a charedig ac wrth law bob amser i wneud cymwynas ag eraill. Bu Dai, fel ei rieni o'i flaen, yn hynod ffyddlon a chefnogol i waith yr eglwys a chyfrannodd yn hael ac yn ôl ei allu i fywyd Y Priordy ar hyd ei oes, gan wasanaethu fel diacon, ymddiriedolwr, trysorydd y Gymdeithas a gofalu am daliadau cyhoeddiadau'r Undeb. Rhaid nodi hefyd garedigrwydd mawr teulu Dolgwili i weinidogion Y Priordy a'u teuluoedd - traddodiad a fynnodd Dai ei barhau hyd y diwedd.

Ni fu ei iechyd ar ei orau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond daliodd ati i yrru a chadw mewn cyswllt â'i gylch mawr o ffrindiau. Ie, mae heolydd y dref yn wag heb y Skoda coch yn gwibio nôl ac ymlaen o ddydd i ddydd, a'r ffôn wedi tawelu. Ond erys yr atgofion am un o gymeriadau hoffus a phoblogaidd y dref a thu hwnt am flynyddoedd lawer.

Gan fod Dolgwili yn golygu cymaint iddo, priodol iawn oedd cynnal oedfa ar glos y ffarm fore Llun, 24 Ionawr 2022 cyn cynnal oedfa i'r teulu yn unig ym Mharc Gwyn. Gwasanaethwyd gan ei weinidog gyda chymorth
Y Parchg Jill Hailey Harris.

Cofiwn amdano'n wythnosol yn Y Priordy wrth i ni bwyso ar y ddarllenfa hyfryd yn y capel a gyflwynwyd gan Dai er cof am deulu Dolgwili. Mae Dai ei hun bellach yn rhan o'r atgofion hyfryd hynny.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Hefina, ei mam Mrs Eileen James a'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd.

**Ein Gweinidog**

## DYLETSWYDDAU

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Chwefror | | Mawrth | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Gwynfor Davies | Philip Jones | Emlyn Schiavone | Huw Jones |

### DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Chwefror** | **6** | **Elen Marks** | **Mawrth** | **6** | **Carys Morgans** |
| | **13** | **PIP** | | **13** | **Elis Jones** |
| | **20** | **Huw Michael** | | **20** | **Gill Owens** |
| ***Gŵyl Dewi*** | **27** | **Y Plant** | | **27** | **Y Mamau** |

### CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwefror** | **Alison Parsons** | **Mawrth** | **Elinor W Reynolds** |

# PIP




**Diolch yn fawr iawn i PIP am eu cyfraniad yn ein hoedfa ar 31 Ionawr 2022 dros Zoom. Cymerwyd rhan gan Osian, Gwenan, Syfi a Marged.**

**Thema'r oedfa oedd Cariad a bu PIP yn crynhoi hanes Dwynwen gan i ni ddathlu Dydd Santes Dwynwen yn ddiweddar.**

**Dywedodd ein Gweinidog yn ei neges ei bod hi'n bwysig i ni ystyried pob diwrnod yn ddiwrnod i ddathlu cariad ac i edrych ar fywyd bob amser trwy galon Iesu, ein Gwaredwr a'n Gwarchodwr.**

***DYMUNWN*** yn dda i bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy’n gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Clywyd Catrin Haf Williams ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** yn trafod ymprydio gyda’r cyflwynydd John Roberts, yn enwedig y cwestiwn pam mae ympryd nid yn unig yn rhan o grefydda erbyn hyn ond hefyd fywyd seciwlar.



Ar y rhaglen **Heno** ar Nos Galan ar **S4C** bu Elinor W Reynolds yn trafod Geiriau 2021 a’r rhai y mae geiriaduron mawr fel yr Oxford a Collins wedi’u dewis. Dyfalodd hefyd mai Amrywiolyn neu Variant fydd Gair y Flwyddyn yn 2022. Tybed a fydd hi’n iawn? Rhaid aros sbel i wybod!

Mared Ifan yw gohebydd newydd **BBC Cymru** yn y Gorllewin ers dechrau’r flwyddyn. Pob dymuniad da iddi wrth y gwaith!

Cafodd y ffilm **Save the Cinema** lawer iawn o gyhoeddusrwydd yn ddiweddar. Ffilm yw hon yn adrodd brwydr Liz Evans, menyw o Gaerfyrddin, i ddiogelu dyfodol y Lyric a sicrhau cartref a chfleusterau gwell i Grŵp Opera Ieuenctid Caerfyrddin. Cafodd ei dangos am y tro cyntaf yn ddiweddar ar **Sky Cinema** ac yn Theatr y Lyric am bythefnos. Mae Mac Bodycome - Pullen o’r Ysgol Sul ynddi ac yn chwarae rhan plentyn sy’n aelod o Gwmni Opera Ieuenctid Caerfyrddin. Gwelir hefyd rai o’r dynion sy’n aelodau o Gôr Meibion Caerfyrddin. Bu’r Côr yn helpu gyda'r canu ac yn chwyddo maint y gynulleidfa yn y Lyric yn ystod y ffilmio! Efallai bod nifer ohonoch wedi cael cyfle i weld y ffilm.



Bu llawer yn cofio'r Archesgob Desmond Tutu a gollwyd ar Ŵyl San Steffan 2021. **Y**mwelodd â Chymru ar sawl achlysur gan gwrdd â mudiadau oedd wedi magu cysylltiadau ag Affrica dros y blynyddoedd. Yn enillydd Gwobr Heddwch Nobel, mae e'n cael ei gofio yn bennaf am ei ran allweddol yn yr ymgyrch i ddod ag apartheid i ben yn Ne Affrica Yn un o rifynnau diweddar **Y Tyst** gwelwyd erthygl ddiddorol gan Elin Wyn James yn trafod dyfyniadau o eiddo Desmond Tutu

Mae'n siŵr bod amryw ohonoch wedi gwylio'r **Noson Lawen – Tecwyn Ifan yn dathlu'r 70** ar **S4C**. Yn cymryd rhan yn y noson i anrhydeddu'r canwr a'r cyfansoddwr poblogaidd hwn roedd Ensemble Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin gyda Siwan Jones, Gwenllian Jones a Catrin Owen yn aelodau ohono.




***I GLOI****,* ein dymuniadau gorau i Eirlys Jones sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ar 9 Chwefror 2022 oddi wrth bob un ohonim yn y Priordy!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir ag Ann Griffiths ar golli'i merch, Julie, yn ei chartref yn Llandysul ar Ddydd Calan 2022. Meddyliwn am ei chymar Tel, a'r plant Gareth, Sioned a Carys a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.**

**Rydym yn cydymdeimlo ag Alwen a Jon a Lleucu ac Elain ar golli tad Alwen a thad-cu'r plant, sef Emyr Wyn Davies, Llety Ifan Hen, Bontgoch, Ceredigion ar 9 Ionawr 2022 Cofiwn am ei briod, Lisa, a gweddill y teulu yn eu colled a'u hiraeth.**

**Mynegwn ein cydymdeimlad hefyd â Jonathan ac Eirlys Thomas, Bedwyr Guto a Meilyr ar golli mam Jonathan a mam-gu'r plant, sef Dianne Thomas, Pontarddulais ar 20 Ionawr 2022. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth a'u colled.**

## DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Jayne Woods am y lluniau'r mis hwn.

**Dydd Sul - 13 Chwefror 2022**
**Casgliad at Goleg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Chwefror | 6 | Bore | Oedfa gyda'n Gweinidog. | C |
| | 13 | Bore | Ein Gweinidog<br>***Casgliad at Goleg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*** | |
| | 20 | Bore | Alun Lenny | |
| ***Gŵyl Dewi*** | 27 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 6 | Bore | Ein Gweinidog | C |
| | 13 | Bore | Ein Gweinidog gyda PIP | |
| | 20 | Bore | Ein Gweinidog | |
| ***Sul y Mamau*** | 27 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ Ysgol Sul   PIP - Pobl Ifainc y Priordy  -  Dim Ysgol Sul   CP – Cwrdd Plant<br>OD – Oedfa Deulu | | | | | | | |
| Chwefror | | | | Mawrth | | | |
| 6 | 13 | 20 | 27 | 6 | 13 | 20 | 27 |
| ✓ | ✓ | - | OD | ✓ | ✓ | ✓ | OD |

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu**
**Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**

## DALIER SYLW

**Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd.**




# CADWCH

# YN DDIOGEL

